Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 20 Gorffennaf 2018

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Andrew Goodall
Desmond Clifford
Andrew Slade
Tracey Burke
David Richards
Gawain Evans
Peter Kennedy
David Richards
Jeff Godfrey
Natalie Pearson
Ann Keane
Ellen Donovan
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Helena Bird

**Yn mynychu:**
Jo Salway (Eitem 1)
Piers Bisson (Eitem 3)
Rachel Lilley (Item 5): Prifysgol Aberystwyth
Simon Dean (Item 5)

**Ysgrifenyddiaeth:**
Rob Jones

**Sylwedydd:**
Haydn Bradley-Davies (Lleoliad STEP)

**Ymddiheuriadau:**
Gillian Baranski
Andrew Slade

### Cyflwyniad

Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i'r cyfarfod a hysbysu'r Bwrdd am ymddiswyddiadau aelodau'r Bwrdd Cysgodol Lynne Schofield a Sara Rhodes, a fydd yn caniatáu i gydweithwyr eraill gael y cyfle i gael profiad o'r rôl ddatblygu allweddol hon. Mae Peter Kennedy yn arwain y gwaith o benodi aelod newydd i'r Bwrdd Cysgodol maes o law. Croesawodd Shan Haydn Bradley-Davies hefyd fel sylwedydd i'r cyfarfod fel rhan o'i raglen STEP.

### 1. Ffyniant i Bawb: Diweddariad ar Bapur y Cabinet

1.1 Rhoes Jo Salway, Pennaeth Swyddfa’r Cabinet, drosolwg o drafodaethau diweddar y Cabinet, ac yn arbennig cynnydd ar *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol.* Roedd canolbwynt penodol ar adborth gan

Weinidogion y Cabinet ar y papur diweddaru a'r trafodaethau a gafwyd arno yn y Cabinet ar 17 Gorffennaf. Y negeseuon allweddol oedd:

- Roedd y trafodaethau yn y Cabinet yn adeiladol a chadarnhaol iawn wrth feithrin consensws a momentwm, gydag ymgysylltiad cryf o du'r Gweinidogion a thystiolaeth o drafodaethau cadarnhaol ar draws portffolios, a herio a chraffu ar y Strategaeth.
- Nodwyd datgarboneiddio i'w gynnwys fel y chweched maes blaenoriaeth.
- Cytundeb i roi canolbwynt newydd i'r Strategaeth a'i hadfywio, gyda ffocws cryf ar gostau, gan nodi blaenoriaethau'r Gyllideb.
- Mae'r rhagolygon ar gyfer FY 2019/20 yn tanlinellu bod cyni'n parhau i achosi heriau ariannol i Lywodraeth Cymru, a bydd angen ystyried yr effaith y gallai hyn ei chael ar y Strategaeth yn ofalus.
- Mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol gyfarfod ag Arweinydd y Tŷ, Julie James, a'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, i drafod rhoi'r Strategaeth ar waith.

1.2 Trafododd y Bwrdd ganlyniadau trafodaethau'r Cabinet a'r camau nesaf. Bydd yr her o ddarparu'r Strategaeth yn gofyn am esblygiad diwylliannol hirdymor yn achos arferion gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau cydweithio trawslywodraethol agos, a symud tuag at “gymorth ataliol” gan sicrhau cydnawsedd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Bwrdd fod y Pwyllgor Gweithredol (ExCo) yn gweithio i nodi enghreifftiau o arferion da o weithio trawslywodraethol gan weithio i helpu'r dull gweithredu hwn i ennill ei blwyf drwy gydol y sefydliad. Cytunwyd hefyd y byddai staff yn cael canllawiau am gynnal cyfarfodydd effeithiol.

**Cam gweithredu: Y Pwyllgor Gweithredol i lunio enghreifftiau o arferion da o weithio trawslywodraethol, a sicrhau bod canllawiau i staff ar sut i gynnal cyfarfodydd effeithiol ar gael. (Y Pwyllgor Gweithredol)**

1.3 Trafododd Cyfarwyddwyr Anweithredol ffyrdd o fonitro cynnydd yn erbyn cyflenwi, a chrybwyll gwaith diweddar Jamie Smith (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) ar olrhain cynnydd interim fel enghraifft o arfer da yn y maes hwn. Nododd y Cyfarwyddwyr Anweithredol mai dim ond dwy flynedd o Dymor y Cynulliad sydd ar ôl, ac roeddent yn teimlo y dylid llunio llinell amser gyda chanolbwynt priodol ar gyflenwi yn erbyn canlyniadau ac allbynnau er mwyn sicrhau bod amcanion y Strategaeth yn cael eu gwireddu.

**Cam gweithredu: Grŵp Cyfarwyddwyr Ffyniant i Bawb i gyfarfod ym mis Medi i greu cynllun gweithredu dilynol, a chynnwys ymarfer mapio o unrhyw orgyffwrdd â mentrau eraill. (Jo Salway)**

## 2. Diweddariad ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd (Brexit)

2.1 Ymunodd Piers Bisson, Cyfarwyddwr y Trefniadau Pontio Ewropeaidd, â Des Cliffordd i roi'r newyddion diweddaraf am faterion Brexit, gyda chanolbwynt ar barodrwydd ar gyfer Brexit. Gofynnodd Des i'r Bwrdd nodi bod y Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi cyfarfod â Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, ddydd Iau 19 Gorffennaf i ddod i ddeall yn well y tirlun gwleidyddol mewn perthynas â Brexit.

2.2 Cafodd y Bwrdd ddiweddariad am y canlynol a'i drafod:

- Cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar Brexit a'r goblygiadau;
- Dogfennau polisi a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Brexit - Diogelu Dyfodol Cymru;
    - Brexit a'n Tir;
    - Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit.
- Cysylltiadau rhynglywodraethol gan gynnwys;
    - Goblygiadau Gwrandawiad arfaethedig y Goruchaf Lys ar 'Fil Parhad' yr Alban;
    - Cytundeb a fframweithiau rhynglywodraethol;
    - Deddfwriaeth ar Brexit (gan gynnwys Bil y Cytundeb Ymadael a'i Weithredu) a'r pwysau cysylltiedig.
- Parodrwydd ar gyfer Brexit, cynllunio ar gyfer 'dim Cytundeb', a'r oblygiadau ar:
    - Sectorau gwasanaethau
    - Cyllid
    - Y Gweithlu
    - Cadwyni Cyflenwi, yn arbennig amaethyddiaeth
    - Ail-wladoli yn yr UE
    - TGCh/Systemau
- Pwysau mewn perthynas ag ariannu ac adnoddau

2.3 Dywedodd Des wrth y Bwrdd fod dogfennau Diogelu Dyfodol Cymru'n cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio dull gweithredu trawslywodraethol, gydag ymgynghori allanol priodol ac fe ofynnodd i'r Bwrdd nodi erthygl olygyddol ddiweddar yn y Western Mail, sy'n cydategu dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran paratoi ar gyfer Brexit. Yn ogystal, mae'r papur Brexit a'n Tir, sy'n nodi glasbrint ar gyfer Dyfodol Cymru Wledig ar ôl 2020 ac a gafodd ei lansio yn Sioe Frenhinol Cymru, wedi bod yn destun canmoliaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi fel enghraifft o arferion da. Gwnaeth y Bwrdd longyfarch Tîm yr UE ar y gydnabyddiaeth a roddwyd i'w waith

caled ac am gynhyrchu dogfennau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n ffrwyth ystyriaeth ofalus, i gefnogi'r gwaith paratoi ar gyfer Brexit.

**Cam gweithredu: Nododd y Bwrdd y câi papur ei baratoi i fynd i'r afael â'r materion uchod i'w ystyried yn is-bwyllgor y Cabinet ym mis Medi. (Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd)**

## 3. Adroddiad Cyllid

3.1 Cyflwynodd Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, yr adroddiad misol ar gyllid. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y pwysau cyllidebol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yn 2018-19 a lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael ar gyfer cyllido posibl, a drafodwyd yn fanwl. Mae fformat yr adroddiad wedi cael ei wella i gynnwys naratif cryfach ar gyfer rhagolygon cyllid ac amrywiannau mewn ymateb i sylwadau aelodau'r Bwrdd yn y cyfarfod blaenorol.

3.2 Trafododd y Bwrdd y penderfyniad gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i gyhoeddi dyraniadau o gronfeydd wrth gefn a thanwariant yn yr hydref a'r angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd ynghylch cyflwyniadau rhagolygon Cyfnod 5 a 6. Yn y gorffennol mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi beirniadu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at danwariant yn rhy hwyr yn y flwyddyn ariannol. Dywedodd Gawain Evans y byddai ei dîm yn adolygu grwpiau dros gyfnod cyflwyniadau 5 a 6 i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i gynghori Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y dyraniadau pellach posibl hyn. Cytunodd y Bwrdd fod yr her ychwanegol hon yn briodol ac y dylai fod yn nodwedd ar adrodd yn ystod y flwyddyn yn fwy cyffredinol.

**Cam gweithredu: Craffu pellach ar gyflwyniadau Cyfnod 5 a 6 i sicrhau bod cyngor cadarn yn cael ei roi i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i gynghori ar ddyraniadau'r dyfodol.**

3.3 Nododd aelodau'r Bwrdd y gwelliannau a wnaed i'r ffordd y cyflwynir y papur, a diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Gawain a'i dîm.

## 4. Cyfrifon Blynyddol Llywodraeth Cymru 2017-18

4.1 Cyflwynodd Gawain y tair adran sydd bellach yn ffurfio cyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18.

- Rhan 1: Trosolwg Llywodraeth Cymru
- Rhan 2: Llywodraethu a thâl cydnabyddiaeth, atebolrwydd a SORO
- Rhan 3: Datganiadau ariannol.

4.2 Mae'r fersiwn derfynol yn dal i gael ei chynhyrchu ac fe gaiff y cyfrifon terfynol eu darparu i Swyddfa Archwilio Cymru ar ddyddiad ychydig yn hwyrach nag y rhagwelwyd yn wreiddiol. Disgwylir iddynt gael eu darparu bellach i Swyddfa Archwilio Cymru yn wythnos gyntaf mis Medi. Mae'r oedi hwn i'w briodoli i dreialu dull gweithredu newydd wrth gynhyrchu'r cyfrifon eleni, sydd heb fod mor llyfn ag y rhagwelwyd oherwydd nifer o amgylchiadau annisgwyl. Cytunwyd ar fesurau lliniaru i sicrhau bod y broses yn ddigon cadarn y flwyddyn nesaf, gan gynnwys caffael system gyfrifyddu fwy priodol, a dyrannu rhagor o adnodd staff. Er hynny, mae'n bwysig nodi nad yw'r newid i'r dyddiad cau yn effeithio ar ofynion statudol, a bydd y cyfrifon yn dal i gael eu darparu mewn ffordd amserol.

4.3 Nododd y Bwrdd fod y cyfrifon wedi cael eu hadolygu a'u darllen yn fanwl yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), un o is-bwyllgorau'r Bwrdd, a mynegodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei diolch i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol am eu her adeiladol yn y fforwm hwn.

4.4 Trafododd y Bwrdd welliannau posibl i pa mor ddarllenadwy yw'r ddogfen, yn enwedig Rhan 1, i'w gwneud mor hawdd ei defnyddio â phosibl. Er hynny, mae'r Gweinidogion wedi'i gwneud yn glir mai diben y ddogfen yw dangos yn gryno ac yn wrthrychol sut y mae arian cyhoeddus wedi cael ei wario. Ceir ffrydiau adrodd ar wahân, er enghraifft, trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i Cherrig Milltir, i fesur allbynnau yn erbyn amcanion strategol

4.5 Nododd y Bwrdd adran Gwelliannau Llywodraethiant y papur a fyddai, o bosibl, yn faes heriol, a chytunodd i drafod mecanweithiau sicrwydd a gwersi a ddysgwyd yn eu cyfarfod ym mis Medi.

**Cam gweithredu: Y Bwrdd i ystyried Gwelliannau Llywodraethiant, mecanweithiau sicrwydd a gwersi a ddysgwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. I gynnwys ystyried y canlynol: Stiwdios Pinewood, Cyrff Hyd Braich a Rheoli Grantiau. (Helen Morris)**

## 5. Adroddiadau Is-bwyllgorau:

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn (ARAC) - Adroddiad Blynyddol**

5.1 Rhoes Ann Keane, Cyfarwyddwr Anweithredol, y newyddion allweddol diweddaraf i'r Bwrdd a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol ARAC.

- newidiadau i aelodaeth ARAC, gan gynnwys penodi Ann yn Gadeirydd.
- Dull gweithredu diwygiedig i sicrhau bod y Gofrestr Risg Corfforaethol yn cyd-fynd ag Amcanion Busnes

- Prinder adnodd staff yn Archwilio Mewnol: mae ymarfer recriwtio allanol ar y gweill i fynd i'r afael â hyn:
- Cynhyrchwyd adroddiad Pennaeth Archwilio Mewnol ac adborth ar hwn yn cael ei ymgorffori yng nghyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru
- Mae ARAC yn fodlon rhoi sicrwydd rhesymol i'r Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, ar ddigonedd y trefniadau llywodraethiant

**Pwyllgor Taliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil**:

5.2 Rhoes Jeff Farrar, Cadeirydd y Pwyllgor, y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd am y materion canlynol a drafodwyd yn ddiweddar ym Mhwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil;

- Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro
- Targedau Amrywiaeth a Chynhwysiant yr Uwch Wasanaeth Sifil 2020

**Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol:**

5.3 Rhoes David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, y newyddion diweddaraf i' i'r Bwrdd am faterion Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, gan gynnwys:

- Mynychodd y Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AC, y cyfarfod diweddaraf ar 19 Gorffennaf. Amlinellodd ei flaenoriaethau mewn perthynas â gwella argaeledd y gyfraith a thrafod y rhain ag aelodau o Fwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â chyflwyno'r ddeddfwriaeth.
- Mae gwaith adolygu'r rhaglen yn mynd rhagddo'n dda, er hynny, mae nifer o heriau'n debygol o godi yn y dyfodol agos, yn bennaf mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE fel un o ganlyniadau posibl negodiadau Brexit.
- Mae'r gallu i gyflenwi'r rhaglen yn llawn yn destun pryder, ac fe dynnwyd sylw'r Gweinidogion at hyn.

## 6. Sesiwn ymwybyddiaeth ofalgar

6.1 Ymunodd Rachel Lilley, y Sefydliad Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg ym Mhrifysgol Aberystwyth, â'r Bwrdd ar gyfer cyflwyniad a sesiwn ar ymwybyddiaeth ofalgar yn y gweithle. Bydd gwybodaeth bellach a fideo o'r sesiwn hon ar gael ar y fewnrwyd ac yn cael eu cyhoeddi ar gyfer yr holl staff.

**Cam gweithredu: Darparu deunyddiau ychwanegol am ymwybyddiaeth ofalgar i'r Bwrdd (Rachel Lilley)**

**Cam gweithredu: Cyhoeddi fideo o'r sesiwn ymwybyddiaeth ofalgar i'r fewnrwyd a deunyddiau cysylltiedig (Natalie Pearson).**

**Swyddfa Breifat yr Ysgrifennydd Parhaol, 20 Gorffennaf 2018**

**Camau gweithredu yn deillio o gyfarfod y Bwrdd ar 20 Gorffennaf 2018**

| **CAM GWEITHREDU** | **SWYDDOG ARWEINIOL** | **Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF** |
|---|---|---|
| **Ffyniant i Bawb** | | |
| Y Pwyllgor Gweithredol i lunio enghreifftiau o arferion da o weithio trawslywodraethol, a sicrhau bod canllawiau i staff ar sut i gynnal cyfarfodydd effeithiol ar gael. | Y Pwyllgor Gweithredol / Ysgrifenyddiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol | Ar y gweill, amserlennwyd ar gyfer Pwyllgor Gweithredol 11 Hydref. |
| Grŵp Cyfarwyddwyr Ffyniant i Bawb i gyfarfod ym mis Medi i greu cynllun gweithredu dilynol, a chynnwys ymarfer mapio o unrhyw orgyffwrdd â mentrau eraill. | Jo Salway | Yn parhau |
| **Trefniadau Pontio Ewropeaidd** | | |
| Nododd y Bwrdd y câi papur ei baratoi i fynd i'r afael â'r materion uchod i'w ystyried yn is-bwyllgor y Cabinet ym mis Medi. | Des Clifford/Piers Bisson/ Tîm Pontio Ewropeaidd | Cwblhawyd |
| **Adroddiad Cyllid a Chyfrifon Blynyddol** | | |
| Craffu pellach ar gyflwyniadau Cyfnod 5 a 6 i sicrhau bod cyngor cadarn yn cael ei roi i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i gynghori ar ddyraniadau'r dyfodol. | Gawain Evans | Yn parhau |
| Y Bwrdd i ystyried Gwelliannau Llywodraethiant, mecanweithiau sicrwydd a gwersi a ddysgwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. I gynnwys ystyried y canlynol: Stiwdios Pinewood, Cyrff Hyd Braich a Rheoli Grantiau. | Helen Morris | Amserlennwyd ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 28 Medi |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** | | |
| Darparu deunyddiau ychwanegol am ymwybyddiaeth ofalgar i'r Bwrdd | Rachel Lilley/Ysgrifenyddiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| Cyhoeddi fideo o'r sesiwn ymwybyddiaeth ofalgar i'r fewnrwyd a deunyddiau cysylltiedig | Natalie Pearson | Cwblhawyd |

**Camau sydd heb gael eu gweithredu 2017-18**

| **CAM GWEITHREDU** | **SWYDDOG ARWEINIOL** | **Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF** |
|---|---|---|
| **Strategaeth Leoli** | | |
| Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ym Merthyr Tudful, yn enwedig o'r rhaglen beilot ar weithio ystwyth, yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth. | Paul Sullivan | Ar y gweill. |
| Nodi ac ystyried y gwersi a ddysgwyd o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. | Paul Sullivan | Ar y gweill. |
| Y cynigion ar gyfer y Strategaeth Leoli i gael eu diweddaru a'u paratoi i'w hystyried gan y Prif Weinidog newydd. | Paul Sullivan | Ar y gweill, y gwaith yn mynd rhagddo |